**Tai Amlbreswyl a Deddf Tai 2004**

**HYSBYSIAD CYHOEDDUS YNGLŶN Â CHYNLLUN TRWYDDEDU YCHWANEGOL**

**Rhoddir rhybudd drwy hyn** bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar yr 24ain o Chewfror 2026 wedi dynodi cynllun trwyddedu ychwanegol mewn perthynas â Thai Amlbreswyl o fewn rhan o ward etholiadol Glyn a Rhiw. Gelwir y cynllun hwn yn Gynllun Trwyddedu Ychwanegol (Tai Amlbreswyl) Bae Colwyn Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy 2026 ("Y Cynllun"). Mae'r dynodiad yn unol â Rheoliadau Trwyddedu a Rheoli Tai Amlbreswyl a Thai Eraill (Darpariaethau Amrywiol) (Cymru) 2006.

Mae'r Cynllun mae'r dynodiad yn berthynol iddo wedi cael Cymeradwyaeth Cyffredinol Llywodraeth Cynulliad Cymru dan Ddeddf Tai 2004 (Trwyddedu Ychwanegol Tai Amlbreswyl Cymru) Cymeradwyaeth Cyffredinol 2007 a ddaeth i rym 13 Mawrth 2007. Felly, yn rhinwedd Adran 58 isadrannau (1)(b) a (7) nid oes angen cadarnhau'r dynodiad a daw i rym ar ddyddiad sydd wedi'i nodi yn y Dynodiad

Bydd y Cynllun yn gweithio ynghyd â Chynllun Trwyddedu Gorfodol Tai Amlbreswyl yr Awdurdod Lleol a ddaeth i rym 30 Mehefin 2006. **Daw'r Cynllun i rym ar y 1af o Ebrill 2026 ac os na fydd wedi'i ddiddymu cyn hynny neu ei ymestyn fe ddaw i ben ar 31ain o Fawrth 2031.**

Mae'r Cynllun yn cynnwys yr holl Dai Amlbreswyl yn yr ardal sydd wedi lleoli o fewn yr ardal a ddisgrifiwyd uchod, heblaw'r rhai sydd wedi'u heithrio gan adrannau perthnasol o'r Ddeddf a'r rhai sydd eisoes wedi'u trwyddedu dan y Cynllun Trwyddedu Gorfodol Tai Amlbreswyl.

Dylai pob perchennog, landlord neu asiant eiddo yn yr ardal sydd wedi'i henwi, ofyn cyngor yr Awdurdod Lleol ynglŷn â Thrwyddedu Tai Amlbreswyl.

Er mwyn i gais gael ei ystyried, rhaid darparu manylion rhagnodedig a'r tâl gofynnol.

Mae Ffurflenni Cais ar gael o
Gorfodaeth Tai, Gwasanaethau Cymdogol Blwch Post 1, Conwy, LL30 9GN neu drwy ffonio 02492 575222
Neu, anfonwch e-bost at trwyddeduTA@conwy.gov.uk

***This document is also available in English.***